**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cronfa Bensiwn

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 17 Tachwedd 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C E Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | D G Sullivan | W G Thomas |
| M B Lewis | | |

**Aelod Cyfetholedig o Gyngor Castell-nedd Port Talbot**
P A Rees

**Ymgynghorwyr**

| | |
|---|---|
| D Morton | Advisor - Hymans Robertson |
| Andre Ranchin | Hymans Robertson |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Daniel King | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Taran Paik | Russell Investments |
| William Pearce | Russell Investments |
| Aiden Quinn | Russell Investments |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Carolyn Isaac | Lawyer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice

---

## 18 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd M B Lewis - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd C E Lloyd - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Rees - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd D G Sullivan - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac rwy'n derbyn pensiwn a weinyddir gan gyn-Gyngor Dyfed - personol.

Y Cynghorydd W G Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Swyddogion:**

K Cobb – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Dong – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

C Isaac – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

A Lowe – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

## 19 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 8 Medi 2021 fel cofnod cywir.

## 20 Adroddiad Archwilio Cyfrifon - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Eglurodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 mai hwn oedd adroddiad annibynnol SRA260 yr Archwilydd Allanol.

Cynigiodd Daniel King ymddiheuriadau gan Jason Garcia a chyflwynodd yr adroddiad archwilio diamod a oedd yn crynhoi prif ganfyddiadau'r archwiliad o gyfrifon 2020-21.

Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 fod llai o faterion i'w nodi nag mewn blynyddoedd blaenorol ac eglurodd y materion mewn perthynas â'r materion sylweddol a amlinellir yn Arddangosyn 2.

Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru am yr adroddiad a chanmolodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151, Karen Cobb, Uwch Gyfrifydd a staff Cyllid am eu holl waith.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Archwilio Cyfrifon.

## 21 Adroddiad am doriadau. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Medi 2021. Amlygwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

## 22 Y Diweddaraf am y Polisi - Gordaliad Pensiwn.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad yn unol â statud, i gymeradwyo'r polisi Gordaliadau Pensiwn.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Polisi Gordaliadau Pensiwn yn Atodiad 1.

## 23 Adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad i bennu a monitro amcanion mesuradwy ar gyfer ymgynghorwyr buddsoddi penodedig fel sy'n ofynnol gan ofynion CMA.

**Penderfynwyd** cymeradwyo amcanion yr Ymgynghorwyr Buddsoddi a'u cynnydd yn erbyn yr un a amlinellir yn Atodiad 1, yn amodol ar adolygiad cyfnodol gan y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid.

## 24 Diweddariad Gweinyddiaeth Pensiwn.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad yn unol â statud i ddiweddaru Polisi Disgresiwn yr Awdurdod Gweinyddu a'r Polisi Gweinyddu Pensiynau.

Dywedodd nad oedd ond yn ceisio cymeradwyaeth ar y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau ar hyn o bryd. Byddai Polisi Disgresiwn yr Awdurdod Gweinyddu yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, i'r Rheolwr Pensiynau a'i thîm am eu holl waith caled.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.

## 25 Adroddiad Sero-ned.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad i ystyried y goblygiadau a nodi dyddiad targed priodol a methodoleg i gyflawni portffolio buddsoddi carbon sero net yng Nghronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Amlinellodd David Morton ac Andre Ranchin, Hymans Robinson LLP y manylion yn Atodiad 1 – Uchelgais Sero Net a Chredoau Buddsoddi.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r canlynol:

A) Ymrwymiad i sicrhau sefyllfa carbon sero net yn ei bortffolio buddsoddi erbyn 2037;

B) Bydd mabwysiadu Credoau Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yn sail i weithredoedd y Gronfa ar risgiau yn yr hinsawdd;

C) Datblygir camau ar weithredu ar y newid yn yr hinsawdd y Gronfa ar draws tri maes allweddol ('3 dimensiwn') i roi mwy o gydbwysedd rhwng:

1. Carbon a metrigau LlCA eraill (yn y gorffennol a'r dyfodol);
2. Cyfleoedd a fydd yn elwa o'r newid i economi carbon is;
3. Gweithgareddau ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd, ac annog arfer gorau ymhlith rheolwyr cronfeydd, cwmnïau buddsoddi a buddsoddwyr eraill.

## 26 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 27 Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn am gynnydd a gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP)

Dywedodd fod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu wedi cymeradwyo'r cytundeb rhwng Awdurdodau a gymeradwywyd hefyd gan Gyngor Abertawe ar 4 Tachwedd 2021.

## 28 Adroddiad Buddsoddi. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd Andre Ranchin, Ymgynghorydd Buddsoddi Hymans Adroddiad Monitro Buddsoddi Chwarter 3 2021

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y pwyllgor a gofynnwyd cwestiynau amrywiol, ac fe'u hatebwyd yn briodol. Diolchwyd i'r Ymgynghorydd Buddsoddi am ei adroddiad.

### 29 Crynodeb Buddsoddi. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cynnwys y gwerthusiad o asedau a'r perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2021.

### 30 Cyflwyniad(au) Rheolwr y Gronfa:

Russell Investments – Ecwitïau Byd-eang ac Incwm Sefydlog- Diweddariad

Gwnaed cyflwyniad gan Aidan Quinn, Taran Paik a William Pearce o Russell Investments.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad llafar ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i Reolwyr y Gronfa am ddod i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.55 am

**Cadeirydd**